Teitl y swydd	Cynorthwyydd Cadw mewn Cysylltiad
Pwrpas y swydd	I ddilyn cyfarwyddiadau Cydlynydd Gofal a'r Cyfarwyddwr Arweiniol dros Ofal i ddarparu gweithgareddau cymdeithasol ac addysgiadol yn ganoledig o gwmpas yr unigolyn ac o safon uchel, gan gynnwys dysgu a arweinir gan dechnoleg, yn unol â'r weledigaeth ac amcanion y sefydliad. I hybu a chynorthwyo pobl ag anabledd dysgu neu anghenion iechyd meddwl i fod yn weithgar mewn gweithgareddau dysgu a chymdeithasol gan gynnwys gweithgareddau o bell a arweinir gan dechnoleg, sy'n cyflenwi gwaith yr Ardd. Mae'r swydd hon yn elfen hanfodol o'n cynllun gwella Covid.
Cyfrifoldebau	• Gweithio mewn partneriaeth â staff a gwirfoddolwyr y prosiect i ddatblygu a gweithredu cynlluniau dysgu a chymorth unigol, gan gynnwys gweithgareddau dysgu a chymdeithasol o bell, lle bo'n addas. • Darparu sesiynau dysgu i grwpiau ac unigolion wyneb i wyneb a thrwy ddulliau cyfathrebu technoleg (ee galwadau ffôn, Zoom, Skype, WhatsApp, y cyfryngau cymdeithasol) • Datblygu a darparu gweithgareddau cymdeithasol ar-lein • Datblygu a darparu cyfathrebiadau ar bapur fel cylchlythyrau neu weithgareddau unigol penodol • Cynnal cofnodion dyddiol o brofiadau'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, risgiau i'w lles a'u targedau • Cyfrannu tuag at broffiliau personol, cynlluniau dysgu unigol ac adolygiadau Defnyddwyr y Gwasanaeth • Cysylltu â theuluoedd, gofalwyr a staff gofal iechyd a chymdeithasol lle bo'n briodol • Derbyn hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen a chyfrannu i gyfarfodydd tîm a datblygu staff. • Dyletswyddau eraill a ystyrir yn angenrheidiol gan y Cydlynydd Gofal a'r Cyfarwyddwr Arweiniol dros Ofal.
Gwybodaeth Benodol, Sgiliau a Phrofiad	**Angenrheidiol** • Hanes clir o gynorthwyo pobl ag anableddau dysgu neu anghenion iechyd meddwl • Sgiliau cyfathrebu a gwrando ardderchog • Gallu i ddefnyddio dulliau cyfathrebu a arweinir gan dechnoleg (Zoom, Skype, WhatsApp. Y Cyfryngau Cymdeithasol) • Profiad o weithio â Microsoft Office a'r defnydd o iPads • NVQ lefel 2 mewn gofal cymdeithasol ac iechyd • Profiad o ddarparu gofal mewn gosodiadau cymunedol • Ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol ac Iechyd allweddol • Gallu i yrru a thrwydded gyrru glan **Dymunol** • Profiad o ddarparu cymorth trwy ddulliau cyfathrebu a arweinir gan dechnoleg • NVQ lefel 3 neu 4 mewn gofal cymdeithasol ac iechyd